

## Llety, os gwelwch yn dda

Edrychwn ymlaen i gael groesawu Côr Synod Mizoram a hefyd y Parch. John Robinson i oedfa arbennig yn Llansannan nos Sul, Ebrill 14eg. Bydd tua 27 ohonynt, ac os oes modd i chi gynnig llety (gwely a brecwast) ar y nos Sul hwnnw, a hynny ar gyfer un, dau neu fwy o bobl, byddem yn ddiolchgar dros ben. Mae Beti Jones (Cefn Meiriadog) yn garedig iawn wedi cytuno i gydlynu'r trefniadau lletya. Plis cysylltwch â hi mor fuan ag y gallwch trwy ffonio (01745) 584349 er mwyn inni allu trefnu llety ar eu cyfer.

## Arian Sasiwn y Chwiorydd

Derbyniwyd neges yn diolch am haelioni Chwiorydd Sasiwn Gymraeg y Gogledd a gyfrannodd £17,750 tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd yn 2018.

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd 2019. **Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') ERBYN **Ebrill 5ed**, os gwelwch yn dda?

## I sylw'r Ysgolion Sul

Penderfynwyd dileu y teitl 'gwaith cwrs' eleni a chael pob plentyn – o'r ieuengaf i'r hynaf – a'r oedolion i wneud 'cyfraniad', waeth pa mor fychan yw'r cyfraniad. Gosodwyd y testun "**Myfi Yw**" eleni a chewch ddehongli'r testun mewn unrhyw ddull neu fodd gan feithrin sgiliau cynllunio creadigol, ymchwilio a datblygu syniadau hefo eraill yn yr Ysgol Sul.

Derbynnir y cyfraniadau yng Nghapel Trefnant **nos Lun, Ebrill 8fed** rhwng 7.00 ac 8.00 o'r gloch. Gofynnir i chi roi enw pob un yn eglur ar y gwaith. (Os ydych am baratoi arddangosfa flodau, cewch fynd â'r trefniant i Gapel Trefnant erbyn 5.30 nos Wener, Mai 10fed ond bydd angen i chi gysylltu ag Anwen Jones, Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Plant ac Ieuenctid ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, er mwyn ei galluogi i gynnwys yr enwau yn yr adroddiad.)

Bydd y Cyfarfod Gwobrwyo yn cael ei gynnal ar nos Wener, Mai 10fed yng Nghapel Trefnant am 6.00. Bydd sgwrs i'r plant a lluniaeth ysgafn i bawb fydd yn bresennol, ac adloniant i'r plant i ddilyn gan griw Coleg y Bala.

## I ddod

- **WORD ALIVE** – Gŵyl Gristnogol (Ebrill 13eg – 18fed) ym mharc gwyliau Prestatyn Sands (Pontins), Prestatyn LL19 7LA. Mwy o fanylion ar gael ar y wefan [wordaliveevent.org](http://wordaliveevent.org). Mae'n fwriad gan rai o'r Ofalaeth i fynd i'r addoliad ar y nos Fercher. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yng Nghapel Saron bore Gwener, Ebrill 19eg am 10.30.



## Llais Bro Aled

Mawrth 31<sup>ain</sup> ac Ebrill 7<sup>fed</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

'Iesu, Iesu, 'rwyd ti'n ddigon, 'rwyd ti'n llawer mwy na'r byd'. Dyna linell gyntaf emyn enwog William Williams Pantycelyn, a datganiad hyfryd o'i ffydd. Ond wrth ganu geiriau tebyg i hyn, ydym ni'n gofyn i'n hunain – ydw i'n credu hyn? Mae'n hawdd iawn morio canu yn ddifeddwl bron, ond tybed yw'r hyn y mae'r geiriau yn ei fynegi yn canu cloch i ni heddiw? Efallai eich bod yn gweld y datganiad fod Iesu yn 'llawer mwy na'r byd' ychydig yn ormodol, ond mae'n cyd-fynd â'r hyn sy'n cael ei gofnodi yn y Beibl. Trwy'r Testament Newydd, gwelwn bobl yn dod yn ddilynwyr i Grist a'u bywydau a'u blaenoriaethau yn cael eu troi wyneb i waered. O'r pysgotwyr cyntaf yn 'gadael popeth i fynd ar ei ôl' (Luc 5:11), i Sacheus gyfoethog yn fodlon talu bedair gwaith cymaint yn ôl i'r rhai a dwyllwyd ganddo (Luc 19:8). Ac wrth gwrs yr enghraifft fwyaf syfrdanol oedd Saul y Pharisead – erlidiwr ffyrnig y Cristnogion cynnar. Wedi ei gyfarfyddiad dramatig â'r Crist atgyfodedig a'i brofiad personol o ras Duw, ysgrifennodd at Gristnogion Rhufain 'Dw i'n ei chyfri hi'n fraint fod Duw wedi fy ngalw i fod yn gynrychiolydd personol iddo, i rannu ei neges gyda chi.' (Rhufeiniaid 11:13 Beibl.net) Beth allai fod wedi achosi'r fath chwyldro ym mywydau'r bobl hyn?

Yng nghanol eu sefyllfaoedd amrywiol – bywyd gwaith cyffredin, cyfoeth sylweddol a hyfforddiant crefyddol uwchraddol, daeth yr unigolion yma i sylweddoli nad oedd dim oll yn cymharu â'r hyn a ddaeth iddynt trwy Iesu Grist. 'Os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma.' (2 Corinthiaid 5:17) Oherwydd wrth ddod i gredu yng Nghrist, nid ffordd newydd o fyw yn unig a gawsant, ond derbyniad gan Dduw, a phrofiad o gariad tragwyddol y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. (Ioan 17:26) Ac mae hynny'n ddigon i newid popeth, hyd yn oed ein gallu i ddygymod â'r sefyllfaoedd mwyaf dirdynnol. Fel y dywedodd un esboniwr Beiblaidd, pan sylweddolwn mai'r Arglwydd yn unig sydd gennym, daw'n amlwg wedyn mai'r Arglwydd yn unig yr ydym ei angen.

Wrth ddod i gyd-addoli heddiw, gweddiwn am arweiniad yr Ysbryd Glân i ddangos i ni ein gwendid a'n hangen cyn ein tywys at Iesu, yr unig un sy'n ddigon i'w bobl ym mhob sefyllfa. (Ioan 6:35)

*Rhodri*

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 31<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 3<sup>ydd</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 4<sup>ydd</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 5<sup>ed</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sadwrn – 6<sup>ed</sup> ➤ **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Parc, y Bala.
- Sul nesaf – 7<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun – 8<sup>fed</sup> ➤ Derbynnir cyfraniadau'r Ysgolion Sul yng Nghapel Trefnant rhwng 7.00 ac 8.00 o'r gloch. Gofynnir i chi roi enw pob un yn eglur ar y gwaith. (Os ydych am baratoi arddangosfa flodau, cewch fynd â'r trefniant i Gapel Trefnant erbyn 5.30 nos Wener, Mai 10fed ond bydd angen i chi gysylltu ag Anwen Jones, Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Plant ac Ieuenctid ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, er mwyn ei galluogi i gynnwys yr enwau yn yr adroddiad.)
- Mercher – 10<sup>fed</sup> ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 11<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Sul canlynol – 14<sup>eg</sup> ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.

### Oedfa Arbennig i'r Fro

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6:00  
yng nghwmni

### y Parch. John Robinson a Chôr Synod Mizoram

Croeso cynnes i bawb.

### Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 31<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Aneurin Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 7<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Sul canlynol – 14<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Oedfa i'r Daith (Peniel, Saron a Nantglyn) yn Nantglyn am 2.00 pryd y bydd y Parch. John Robinson yn pregethu.

### Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 31<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.30.
- Mercher – 3<sup>ydd</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul nesaf – 7<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn y Sul blaenorol**, os gwelwch yn dda.
- Mawrth – 9<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Oedfa i'r Daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn Llansannan am 10.30 yng nghwmni Dr Owain Edwards.
- Mercher – 10<sup>fed</sup> ➤ Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul canlynol – 14<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn y Sul blaenorol**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 14<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa.
- Sul canlynol – 14<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Llansannan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa am 11.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

### Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 31<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 9.30, a hefyd yng Nghefn Berain am 11.00 gyda'r Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, yn Groes am 10.45, ac yn Henllan am 11.00.
- Sul nesaf – 7<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30.
- Sul nesaf – 7<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'n harwain at y Pasg yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 7<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Sul nesaf – 7<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Gwasanaeth i'r teulu cyfan yng Nghefn Berain am 10.00, gyda phaned i ddilyn.
- Sul canlynol – 14<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 ac yn Groes am 11.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain, a chynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- RHAGRYBUDD ➤ Yn ystod oedfa'r bore am 11.00 yn Llanefydd ar Ebrill 21<sup>ain</sup>, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07814 660291  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📠 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (10<sup>fed</sup>), os gwelwch yn dda.